O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2124 (Cy. 230)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Croesfan Reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *26 Awst 2011*

*Yn dod i rym* *7 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwaahrdd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Croesfan Reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 7 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *(""the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A40 wrth Groesfan Reilffordd Llanymddyfri yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin, sy'n ymestyn o bwynt tua 20 o fetrau ar y naill ochr a'r llall i'r groesfan honno;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y mae'r erthygl yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Awst 2011

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.